



Llais y Llan Chwefror 2019

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 24th Mawrth 2019

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Brechfa yn cyfrannu'n arianol at Llais y Llan

Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf

Clwb Bowlio Llanpumsaint a Nebo pob Nos Llun a pob Nos Iau 7.30 – 9.30 Neuadd Goffa
 Noson 'Fitness Fun' Nos Fawrth 6.30 Neuadd Goffa £4
 Noson Stêc y Rheilffordd pob Nos Fercher 01267253643
 Cadw'n Heini 50+ pob Dydd Iau 2.00 – 3.00 Neuadd Bronwydd
 Llyfrgell Deithiol - pob Dydd Mercher, 10.45 – 11.45, Neuadd Goffa Ffôn 01267 224830
 Gwasanaeth Swyddfa Bost ar dydd Gwener 11.15 – 12.15 Neuadd Bronwydd
 Gwasanaeth Swyddfa Bost ar ddydd Mawrth 2.00 - 4.00 a dydd Gwener 1.00-3.00 Bryn y Wawr
 Merched y Wawr Trydydd Nos Llun o'r Mis yn y Neuadd Goffa
 Ail fore Sadwrn bob mis -Y Farchnad Fisol, 10.00 – 12.00 Neuadd Eglwys Llanllawddog
 Ti a Fi pob Bore Gwener 10.00 - 12.00 Neuadd Bronwydd
 Cylch y Pentref pob Dydd Mawrth 2.00 – 3.30 Eglwys Llanpumsaint
 Chwefror 6 Nos Fercher 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa
 Chwefror 13 Nos Fercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 01267253643
 Chwefror 19 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd
 Chwefror 24 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd
 Chwefror 24 Nos Sul 7.30 Cwis Hollybrook Bronwydd
 Chwefror 25 Dydd Llun 2.00 Clwb 60+ Neuadd Bronwydd
 Mawrth 30ain Ebrill - Cyfarfod Cyffredinol Eglwys Llanpumsaint 7yh
 Mawrth 1 Nos Wener Dydd Gwyn Dewi – Cawl yn y nos yn y Neuadd Goffa
 Mawrth 2 Dydd Sadwrn 10.00 – 12.30 Comopo a Glanhau'r
 Mawrth 2 Dydd Sadwrn 10.30 Cyfarfod Blynyddol Y Gymdeithas Rhandiroedd, Hen Orsaf Iard
 Mawrth 5 Dydd Mawrth 3.30 – 5.00 Eglwys Agored a Phincws
 Mawrth 6 Dydd Mercher 10.00 Clinig Traed Neuadd Goffa
 Mawrth 6 Nos Fercher 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa
 Mawrth 8 Bore Wener 10.00 Cyngerdd Gwyl Dewi Cylch Meithrin Bronwydd , Neuadd Bronwydd
 Mawrth 13 Nos Fercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 01267253643
 Mawrth 19 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd
 Mawrth 24 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd



Nid y lili wen fach ond blodyn hardd ac unig yn y fynwent.



John Esau



Eira yn y pentref 2018



Macblud haul godidog arall dros Llanpumsaint 2019

Ymddiriedolwyr Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri

Yn dal i chwilio am Ysgrifennydd newydd ac yn awyddus am geisiadau. Cysylltwch ag Elfed Davies y Cadeirydd 01267 253053 neu aelod arall am wybodaeth.

Cael traferth i gysylltu ar y Band-eang Ffibr?

Cysylltwch â Senedd Cymru - <https://beta.gov.wales/go-superfast/what.are.my.options>

Mawrth 24 Nos Sul 7.30 Cwis Hollybrook Bronwydd
Mawrth 25 Dydd Llun 2.00 Clwb 60+ Neuadd Bronwydd
Ebrill 2 Nos Fawrth Cinio Elusen – Y Railwe
Ebrill 3 Nos Fercher 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa
Ebrill 10 Dydd Gwener 3.30 – 5.00 Eglwys Agored Llanpumsaint 3.30 – 5 yp
Ebrill 10 Nos Fercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 01267253643
Ebrill 10 Nos Fercher 7.30 Bingo'r Pasg Neuadd Goffa
Ebrill 21 Dydd Sul Gwasanaethau Diwrnod Pasg gweler hysbysiadau yn yr eglwys a'r capeli.
Ebrill 28 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd
Ebrill 28 Nos Sul 7.30 Cwis Hollybrook Bronwydd
Ebrill 29 Dydd Llun 2.00 Clwb 60+ Neuadd Bronwydd
Ebrill 30 Nos Fawrth 7.00 Cyfarfod Cyffredinol Eglwys Llanpumsaint
Ebrill 30 Nos Fawrth Cyfarfod Blynnyddol Cyffredinol Pwyllgor Lles ac Adloniant Neuadd Goffa
Mai 1 Nos Fercher 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa
Mai 18 Dydd Sadwrn Dydd Hwyl Pwyllgor Lles ac Adloniant
Mai 19 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd
Mehafin 14 Nos Wener Helfa Drysor y Ceir Pwyllgor Lles ac Adloniant
Rhagfyr 7 Dydd Sadwrn Ffair Nadolig – Neuadd Goffa

I logi'r Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri, ffoniwch Derick Lock 253524

Bore Sadwrn y comopo a glanhau'r – Mawrth 2ail 10 – 12.30

Dewch i ymuno gyda ni i bigo sbwriel a phob annibendod arall ar hyd ac o amgylch heolydd y pentref. Croeso i bawb o bob oedran – gwelsom un yn dair oed ac un arall dros bedwar ugain. Bydd y cyfarpar i gyd ar gael; yn fagie coch, dillad llachar, a ffyn pigo lan, ond bydd angen i chi ddod a menig. Cwrdd yn faes parcio'r Neuadd. Gallwch hefyd gasglu'r offer wrtho i ymlaen llaw a mynd ati cyn Mawrth 2ail, ond dewch a phopeth' nol i'r Neuadd ar y dydd. Ffoniwch 01267 253308 neu drwy E-bost info@gwilimill.com <<mailto:info@gwilimill.com>>. Dewch i dacluso'r pentref cyn y Gwanwyn; dewch yn lli! Carolyn Smethurst.

Cylch Y Pentref

Lansiwyd clwb newydd yn Llanpumsaint a bydd Cylch y Pentref yn cyfarfod am y tro cynta' ar Ddydd Mawrth 5ed o Chwefror rhwng dau a hanner awr wedi tri yn yr Eglwys. Wedyn, bydd yn cwrdd bob prynhawn dydd Mawrth o hynny ymlaen. Gallwch gyrraedd neu ymadael pryd y mynnoch.. Pwrpas y Clwb yw creu cyfle i gymdeithasu a chwrdd â chyfeillion hen a newydd. Bydd paned o de neu goffi yno a chyfle i ddod a darn o grefft neu ddiddordeb yw rhannu ag eraill. Gallwch ddysgu rywbeth newydd neu jyst mwynhau'r glonc. Croeso i bob oed yn y gobaith o'ch gweld yno. Daw gwybodaeth bellach o gysylltu â - Niki Day – 01267 253883 - enfysfechan@btinternet.com Helen Thomas – 01267 253930 – helenthomas@btinternet.com

Y Peiriannau Adfywio

Dyma restr o leoliadau'r peiriannau Adfywio o amgylch ein hardal -

Ger prif ddrws y Neuadd Goffa SA33 6BZ

Maes Parcio Tafarn y Railwe SA33 6BU

Ar y wal ger Henfryn ar hewl Ffynnonhenri SA33 6LD

Ar Festri Nebo godderbyn a'r Capel SA33 6HN

Byddwch yn ymwybodol o'r lleoliad Adfywio nesaf atoch – felly os caiff rywun drawiad y galon bydd modd ymateb ar unwaith.

Shwd mae Adfywiwr o gymorth?

Drwy roi sioc i'r galon mae'r Adfywiwr yn gallu peri iddi weithio unwaith eto. Mae'r peiriant yn hollol saff i'w ddefnyddio ac mae cyfarwyddiadau priodol yno i'ch cymorth. Mewn argyfwng o'r fath mae pob eiliad yn dyngedfennol bwysig er mwyn achub bywyd. Os nad yw'r person yn anadlu galwch 999 ar unwaith gan ddechrau'r adfywio.

Dylid cychwyn CPR drwy bwmpio'r ysgyfaint ac anadlu drwy geg y claf, er mwyn cadw'r gwaed i symud. Mae pecynnau hyfforddiant ar gael a gallwch fenthyg un drwy ffonio 01267 253308 neu gysylltu

info@gwilimill.com <mailto:info@gwilimill.com>

Ymgyrch Which – Y diweddaraf

Fel bo chi'n gwybod, fe ges i iawndal am y PpI werthwyd i mi dros ugain mlynedd 'nol, a minnau wedi anghofio amdano. Daeth siec fach dderbyniol iawn cyn Nadolig. Felly mae'n werth cwrso lan - dyma'r cyswllt - <https://www.which.co.uk/consumer-rights/advice/how-to-reclaim-mis-sold-ppi>

Llenwch y ffurflen a bant a chi! Mae eithaf rhwydd. Carolyn Smethurst

Scam arall ar droed - Bod angen trwydded i'ch cyfrifiadur!

O ie! Tynnwch y goes arall! Cofiwch hefyd os i chi gyda B.T gellwch ddefnyddio Call Protect. Galw 1572 ac mae modd atal y rhif olaf i chi ei ateb. Drwy ddefnyddio'r gwasanaeth rhad yma daw llai o niwsans.

Bowlio Dan-Do Llanpumsaint a Nebo

Cychwynnodd 2019 ar nodyn gobeithiol gyda buddugoliaeth 6-2 erbyn Pontarogthi. Ond dilynwyd hyn gan golli erbyn Trimsaran a phencampwyr llynedd Salem. Bu Gethin ac Aled Edwards yn rhan o fintai ugain cryf Sir Gaerfyrddin yng nghystadleuaeth y Siroedd yn Ionawr. Sir Benfro aeth a hi gyda Sir Gar yn bedwerydd.

Blwyddyn newydd datblygiad newydd! Gwefan newydd.

Llanpumsaintmbc.co.uk felly cyfle i'n miloedd o gefnogwyr gadw lan a digwyddiadau'r Clwb. Byddwn yn bwydo gwybodaeth am gemau, chwaraewyr, cystadlaethau sirol a chenedlaethol.

Rydym yn cyfarfod yn y Neuadd bob Nos Lun a Nos Iau o 7.30 tan 9.30, a hynny hyd ddiwedd Ebrill.

Croeso i chwaraewyr newydd rhwng 11 a 99 oed, ac mae gyda'm hyfforddwyr profiadol wrth law i estyn cymorth. Gwybodaeth bellach oddi wrth y Cadeirydd Derick Lock 01267 253524 neu'r Ysgrifenyddes Jill Edwards 01267 253474

Clwb Chwe Deg Bronwydd

Cawsom ein Cinio Nadolig yng ngwesty'r Giltar yn Ninbych y Pysgod, gyda'r aelodau'n mwynhau'r bwyd a'r adloniant. Dechreuwyd y dydd ar daith ddirgel aeth a ni i siopa yn Arberth a chwpaned i ddilyn. Dyma'r ail flwyddyn i ni ddilyn y trywydd yma sy'n amlygu i fod yn boblogaidd gyda'r aelodau.

Dyddiadau'r Flwyddyn newydd –

28ain Ionawr - Siaradwr - Jeremy John

25ain Chwefror - Dathlu Dydd Gŵyl Dewi - Dewch a basin a llwy gogyfer a'r Cawl - Telynores Luc Rhian.

25ain Mawrth - siaradwr - Dr Hedydd Davies

29ain Ebrill - Siaradwr - Mr Nick Brunger.

Bydd pob cyfarfod yn dechrau am ddau o'r gloch y prynhawn. Aelodaeth £5 y flwyddyn - croeso i bawb!

Val Giles

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanpumsaint

Digwyddiadau

Ebrill 10fed 2019 – Bingo'r Pasg - Neuadd 7.30 y.h

Rhagfyr 7fed 2019 – Ffair Nadolig – Neuadd

Y Ffair Nadolig

Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac yn arbennig i-

Sion Corn am gyfarfod a'r plant

Becky am ei holl lysiau i'r cawl

Pobl y stondinau ac am eu gwobrau

Edrych ymlaen at eich gweld y tro nesa.

Bingo'r Pasg

Yn dilyn llwyddiant y nosweithiau blaenorol gyda'r Bingo mae'r Gymdeithas am gynnal un arall ar y 10fed o Ebrill 2019 yn y Neuadd Goffa. Mynediad am ddim ac yna prynwch eich offer chwarae er mwyn cystadlu am y gwobrau. Bydd lluniaeth ar gael ac mae croeso mawr i bawb.

Codi Arian yn rhwydd.

Os i chi'n siopa ar y we yna gallwch godi arian i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Cofrestrwch ar

www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaintPTA

<<http://www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaintPTA>> neu siaradwch ag Emma Brown.

Codi arian cyfatebol

Os oes 'na rywun yn gymuned yn gallu ceisio am arian cyfatebol drwy eu gwaith neu ffordd arall ac yn barod i'r Gymdeithas Rhieni elwa'n gyfatebol yna cysylltwch â Becky James ar 01267 253560.

Bilie Dwr! Angen help llaw?

Bob blwyddyn bydd y Cyngor Defnyddwyr Dwr yn cyhoeddi camau help llaw i rai hynny sydd angen cymorth gyda'i dyledion, neu'n gallu hawlio cymorth gyda materion dwr neu garthffosiaeth. yng Nghymru. Dyma amlinelliad o'r cymorth ar gael i rai sydd yn ennill incwm isel neu'n fregus mewn unrhyw ffordd arall, oddi wrth Dwr Cymru -

Help U – drwy osod clo-bwynt ar y defnydd

Dwr Sicr (watersure) Cymru - Yn cynnig gostyngiad pris i rai sy'n gorfod defnyddio llawer o ddŵr oherwydd anabledd neu anghenion tylwyth mawr.

Cynllun Cymorth y cwsmer - help llaw i gwrdd â bilie a chlirio dyled

Dwr Uniongyrchol - Sy'n caniatáu talu bilie'n syth o'r budd-dal

Cynllun Talu – Drwy wneud cytundeb i reoli'r defnydd a'r taliadau

Cofrestr Gwasanaeth Blaenoriaeth - Sy'n cynnwys amrywiaeth o gymorth, yn amrywio o gymorth i ddarllen y medr i gael poteli o ddŵr wrth y drws pan fod yna doriad yn y gwasanaeth.

Am fwy o wybodaeth ynghyn a'r gwahanol gynlluniau yma cysylltwch â Dŵr Cymru

Lia Moutselou, Prif Reolwr, /Cyngor Defnyddwyr Dwr Cymru /Ffon: 02920443805 neu 07554405859

Clwb Cant Llanpumsaint

Dyma enillwyr Ionawr a dynnwyd yng nghyfarfod Y Pwyllgor Lles ac Adloniant ; -

£20 – Rhif 98 ... Anne Ryder-Owen

£15 - Rhif 107 ... Phillip Jones

£10 - Rhif 64John Richardas

Byddaf nawr yn paratoi fy adroddiad blynyddol a chasglu tanysgrifiadau ac enwau newydd am y flwyddyn nesaf. Tynnir o'r het ym Mis Mawrth unwaith eto. £12 yw'r tanysgrifiad am y flwyddyn ac os ydych yn ysgrifennu sic gwnewch hi i Glwb Cant Llanpumsaint.

Dereck Lock Trysorydd – Maes y Felin Llanpumsaint SA33 6BY 253524

Bant yng Ngwlad yr Ia *Iceland*

Mi wariodd Dave a minnau dipyn o arian ar ddillad fyddai'n gweddi i fod tua phegwn y Gogledd pan aethom i Sweden ryw bum mlynedd 'nol. Yna buont yn llechu yn y llofft am oes nes i ni wario'r Nadolig yn Norwy ddwy flynedd 'nol (a chael bwchadanas i ginio Nadolig). Mas a nhw i'r awyr eleni eto pan aethon i Wlad yr Ia am bedwar diwrnod. Y bwriad oedd gwylio'r Tan Gwylt honedig o fod y gorau yn y byd. Ac ni chawsom ein siomi, yr oedd yn wych. Llenwyd yr holl awyr drwyddi draw gan danau gwyllt llachar oedd yn wirioneddol yn mynd a'ch gwynt. Gall y cyswllt islaw roi argraff i chi o'r wledd. Bu'n bedwar diwrnod blinedig o deithio o amgylch mewn bws a dringo pedwar can cam i ben rhaeadr. Teithiom i draeth ar begwn y de lle'r oedd y tywod yn ddu a chreigiau tebyg i rai'r Troedle'r Cawr yn Iwerddon. Yno 'roedd y gwynt mor gryf nes rhaid gwasgu'ch traed i'r tywod i sefyll lan. Ar Ddydd Calan aethom i chwilio am forfilod ond gweld dim ar wahân i un neu ddau ddolffin. Ond cawsom ddau docyn i fynd eto o fewn dwy flynedd sy'n creu esgus i ddychwelid. Efallai yn yr Haf y tro nesa' i weld yr haul canol nos. Braff oedd hi wedi taith hir o Heathrow weld Cymru fach unwaith eto. Vi Robinson

<https://www.dropbox.com/sh/4ulaj9bpdoldff9/AAA90rwIzKJIEfYvdP7BkyPa?dl=0>

Metr Smart. Oes angen un arnoch ?

Mae'r Llywodraeth yn gwario tipyn o arian ar hysbysebu'r Medr Smart er mwyn dweud wrthyh faint o drydan i chi'n defnyddio. Felly os angen un arnoch a hefyd a yw e'n mynd i arbed arian i chi?

Gall ddweud wrthyh faint o drydan i chi'n defnyddio nos a dydd. Gallwch droi pethau bant i weld faint llai i chi'n llogi. Gallwch newid a defnyddio cyfarpar mwy effeithiol fel un AA. Pan aiff eich bwlw dodwch un LED mewn maent wedi gostwng eu pris yn sylweddol ac yn mynd i bara'n hirach, ac yn llai costus i'w rhedeg. Bydd y medr yn bwydo'ch cwmni trydan ynghyn a'ch defnydd nos a dydd, felly sdim rhaid i chi wneud dim. Mae'n syniad da i gadw llygad ar y farchnad ynni'n barhaol er mwyn gweld pwy sy'n cynnig y fargen ore. Os am gael medr gwnewch yn siŵr mae un Ail Genhedlaeth yw e', felly os newidiwch gwmni cyflenwi ni fydd angen newid y metr. Mae gan Which erthygl dda sy'n egluro rhai o broblemau ac atebion defnyddio Medr Smart. (<https://www.which.co.uk/reviews/smart-meters/article/smart-meters-explained/smart-meter-problems-and-solutions>)

Bu yna rai gofidiau y gellid defnyddio'r medr i ysbio ar gartrefi pobl ac mae hwn yn faes y gellir dilyn i fyny arno hefyd. A beth am y perygl o ymbelydredd, bwgan arall a godwyd. Dywed Bwrdd Iechyd Lloegr nad oes yna unrhyw berygl yma, ond anghytuno mae ambell arall. Pwy a ŵyr?

Felly ble i ni'n sefyll? Ar hyn o bryd ni allwn weld mantais i ni yma felly gadewn bethau i fod fel ma' nhw! 'Does dim rhaid achos ma' fe lan i chi benderfynu Carolyn Smethurst

Cymdeithas Rhandiroedd Llanpumsaint

Stablad y boi ar ei liniau!

Os ydy'r dyn ar ei liniau yn yr ardd yn siarad â dim un fenyw mewn golwg, mae stil yn anghywir.

Gwybodaeth yw gwybod mae planhigyn yw tomato. Doethineb yw peidio â'i rhoi yn y salad ffrwythau.

Hoff lyfr y garddwr yw War & Pis

Felly pam na giciwch i yn y flwyddyn newydd gan ymddiddori mewn ffrwythau neu lysiau. Mae angen gwaed newydd arnom i gynyddu ein haelodaeth. 'Sdim rhaid i chi fod o gefndir garddio ac mae llawer ohonom wedi dysgu drwy balu, a 'sdim y fath beth a methu oherwydd arbofi i chi!. Fe gymysgodd un aelod ffa pob a winwns i wneud rhech

Cyfarfod Blyneddol Y Gymdeithas Rhandiroedd – Bore Sul 2ail o Fawrth am 10.30 yb. Dewch i gofrestril.

Croeso i chi ddod i weld beth sy'n digwydd. £35 yw'r dal aelodaeth am y flwyddyn gyntaf ac yna £25 o hynny ymlaen. Yn hen neu ifanc dewch atom i hen iard yr orsaf gerllaw Tafarn y Railwe. Cysylltwch os mynnwch a Keith 253375 neu Ray 253157. Keith Tozer Ionawr 2019

Cymdeithas Dewiswyr Gorllewin Cymru - Rhaglen y dyfodol

Chwefror 24ain - Ymarfer Dewinio

Mawrth 24ain - Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol

Ebrill 28ain - Dewi Bowen - Safleoedd Cyntefig Gorllewin Cymru

Mai 19eg - Maria Wheatley - Dewinio Safleoedd Cysegredig Gorllewin Cymru

Mae dewinio yn ymarfer hynod o ddiddorol a hawdd ei ddysgu a gwnaeth darddu o'r Aifft. Dewisa nifer o gwmnïau ddefnyddio dewinwyr i ganfod mwynau, olew a gwifrau trydan. Dewinia rhai pobl am ddiogelwch eu bwyd ac am straen geopathic yn eu hamgylchfyd ond hyd yn hyn agwedd bersonol yw heb gadarnhad gwyddonol. Dewch atom i Neuadd Bronwydd am 1.45 y.p. ac am £4 cewch baned yn y fargen. Does dim angen cyfarpar felly cysylltwch â Sandy ar 01267 253547

Dyddiau'r Eglwysi

Marcher 6ed Chwefror - Eglwys Agored Llanpumsaint 3.30 – 5 yp

Sadwrn 9fed Chwefror - Marchnad Agored Eglwys Llanllawddog 10 12.30

Gwener 1af Mawrth - Dydd Gwyn Dewi – Eglwys Llanpumsaint - Cawl yn y nos yn y Neuadd.

Dydd Mawrth 5ed Mawrth - Dydd Mawrth Ynyd - Eglwys Agored a Phincws - 3.30 - 5 yp.

Sadwrn 9fed Mawrth - Marchnad Agored Eglwys Llanllawddog 10 – 12.30

Mercher 10fed Ebrill – Eglwys Agored Lanpumsaint 3.30 – 5 yp

Sadwrn 13eg Ebrill – Marchnad Agored Eglwys Llanllawddog 10 – 12.30

Sul 21ain Ebrill Cymun y Pasg - Llanllawddog 9.30 yb - Celynin 11 yb

Mawrth 30ain Ebrill - Cyfarfod Cyffredinol Eglwys Llanpumsaint 7 yh

Neges 15fed Ionawr 2019-01-27

Heddiw wrth gerdded i mewn i'r Eglwys i weddio, yn ôl fy arfer bob bore Mawrth, sylwais fod un o'r planhigion a blannwyd pan wnaethom drafod dameg yr heuwr wedi egino. Fe'm hudwyd gan y blodyn bach bregus melyn a phorffor ar fore o dywydd digon diflas. Teimlais yn falch fy mod wedi sylwi arno a'i werthfawrogi.

Er i mi wybod sut a pham mae blodau'n tyfu mae rhywbeth gwyrthiol o weld yr un cyntaf mor bert yn tyfu allan o'r llaid. I mi mae'n symbyliad o obaith newydd yn codi gwaeth pa mor ddu y bu pethau ac yn addo gwell i ddod. Yr oedd rhyw arwyddocâd i'r blodyn bach hwn yn tyfu rhwng y cerrig beddau. Mae'r Iesu yn addo y daw gobaith a chynnydd o ganlyn ôl ei droed, mewn byd sydd yn aml yn ddu a diflas.

Os ydych yn betrusgar ac angen gobaith newydd yna dewch i unrhyw un o'n cyfarfodydd neu ddigwyddiadau. Parch Gaynor.

Gofal Traed Dyma ddyddiadau'r ddau glinig nesaf yn y Neuadd Goffa am 10 o'r gloch y bore ar y 6ed o Fawrth 2019.

Dylai cleifion newydd gysylltu a Gary Robinson yn ystod yr wythnos rhwng 6 a 8 y.h. ar 07789 344488 fel y dylai cleifion cyfredol sydd yn dymuno canslo eu hapwynytiadau. (gofynnir am rybudd o leiaf 24 awr, plis).

Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Rhaid cael gwasgfa cyn y daw eithafiaeth I'r wyneb ac felly oedd hi yng nghyfarfod Mis Ionawr o'r Cyngor. Rhywle rhwng Paris y 18fed Ganrif a Sir Benfro yn yr 1840's oedd hwyl a naws y cyfarfod ac un o'r Cynghorwyr mwyaf tawedog yn gofyn; 'should I buy a frock?' Ac ie, mae ei gyfenw yn odli gyda'r dilledyn.....! Wrth wraidd yr annifyrwch yw ymateb; neu I fod yn fwy cywir, diffyg ymateb y Cyngor Sir I'r materion sydd yn cael eu danfon atynt gan Clerc y Cyngor. Mae'n anffodus, ond yn ffaith, mae materion sydd yn ymwneud a chyflwr truenus yr heolydd gwledig yw mwyafrif y materion a ddaw I sylw'r Cyngor; ac am ba rhesymau bynnag, dyma gyllyd y Sir sydd wedi ei gwtogi yn sylweddol, sydd yn golygu fod tyllau ar wyneb y ffyrdd a phyllau o ddŵr yn sefyll ar yr heolydd yn dilyn glaw trwm, yn parhau I fod yn boendod I drigolion Llanpumsaint a'r ardaloedd o gwmpas y pentref. Meddai y Cyngorydd Elfed Davies; 'Os na ddaw ymateb mwy cadarnhaol o'r Sir, ma cystal I ni rhoi'r gore I gyfarfod fan hyn bob mis. Bob tro I ni'n cwrdd, yr un materion sydd yn cael eu codi ac oherwydd, nad yw'r Sir wedi delio gyda nhw....' Cytunodd gweddill y Cynghorwyr gyda sylw Elfed Davies a phenderfynnwyd os na fydder Sir yn ysgwyddo eu cyfrifoldebau, a gwario ar wneud gwaith cynnal a chadw, fydder Cyngor lleol yn cyfarfod bod chwarter.

Trafodir y Prasept yng nghyfarfod cyntaf o'r flwyddyn, ac am y tro cyntaf ers I'r Clerc presennol fod yn gweinyddu, penderfynnwyd ei godi o £22 pob aelwyd Band D I £25. Roedd y Cynghorwyr yn gwbl glir mai nid codi mwy o arian I wario ar waith dylai'r Sir I fod yn neud, ond I gynnyddu'r cyfraniadau I'r Neuadd a'r Cae Chwarae ac achosion da eraill.

Phil Jones Clerk, 01267253512, clerk@llanpumsaint.org.uk/communitycouncil

Ferm Wynt Coedwig Gorllewin Brechfa Cyfarfod Agored 08.01.2019

Daeth tua 11 person ynghyd yn y Neuadd Goffa I wrando ar Aled Owen; sydd yn cael ei gyflogi gan arian Innogy o Fferm Wynt Brechfa, yn son am y symiau o gyllyd sydd ar gael ac ar beth gellir ei wario. Yn flynyddol, fydd £380,000 i'w rhannu rhwng y cymunedau sydd wedi ei effeithio mewn rhyw fodd gan y Fferm Wynt, ac mae'r arian hyn ar gael am gyfnod o 25 mlynedd. Gellir gwario'r arian ar amrywiaeth o brosiectau ond bod pob cais am gymorth ariannol yn cael ei drafod gan Banel Grantiau. Eithriad yw fod y Panel yn gwrthod ariannu prosiect ond os daw cais oddi wrth mudiad crefyddol, neu cais I wario arian ar rhywbeth stadudol dylai'r Sir fod yn gwario arno, efallai y gwrthodir. Hyd at yma, ariannwyd 2 brosiect sef; adfywyr I gymuned LLanllawddog a maes chwarae 3G I Ysgol Bro Myrddin.

Canmoliaeth oedd gan Aled Owen I'r sawl wnaeth fynychu'r cyfarfod, am eu parodrwydd I gymeryd rhan ac I wneud awgrymiadau; meddai I'r cyfarfod fod y gorau iddo fynychu hyd at yma. Rhai o'r awgrymiadau a gynnigwyd yn ystod y cyfarfod oedd; ailagor y tai bach, cychwyn Clwb Cyfeillgarwch, gosod paneli solar I wresogi'r Neuadd ac I godi rhywfath o gysgod ar ymyl y cae chwarae, er lles y cefnogwyr a ddaw I wyllo'r pêl droed.

Maes o law, trefnir Diwrnod Agored yn y Neuadd er mwyn rhoi cyfle I weddill y gymuned I alw mewn ac I gyfarfod gyda Aled Owen ac eraill ac I wneud rhagor o awgrymiadau ar sut mae dod a gwelliannau I'r gymuned.

Os oes gennychchi syniad prosiect a hoffech ddeall mwy am wneud cais am gyllid, cysylltwch

brechfa@anturteifi.org.uk 01239 710238

CYLCH MEITHRIN BRONWYDD

Dyma ni eto ar ddechrau blwyddyn newydd, a hoffem ni ddiolch yn fawr iawn yn gyntaf i bob un ohonoch sydd wedi ein cefnogi dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sydd yn ein helpu ym mhob ffordd. Mae niferoedd ein plant wedi cynyddu yn fawr dros y flwyddyn ddiwethaf gan fod nifer o deuluoedd a phlant ifainc yn ein dalgylch. Cofiwch fod croeso mawr i chi ddod a'ch babanod a phlant bach i ein sesiynau Ti a Fi sy'n cael eu cynnal bob bore Gwener (10yb - 12hd) yn ystod y tymor. Bydd mynychu'r sesiwn yn helpu pob agwedd o ddatblygiad eich plentyn, yn enwedig datblygiad cymdeithasol hollbwysig.

Roedd tymor y Nadolig yn brysur iawn gyda Chyngerdd i'r gymuned, a ffair greffttau. Yn ogystal, bu'r plant a'r rhieni ar daith trên i ymweld â Siôn Corn. Rydym yn ffodus bod trên Siôn Corn yn pasio mor agos i ni ym Mronwydd! Cawsom barti bendigedig ar ddiwedd y tymor a daeth Siôn Gorn yn ôl i'n gweld. Ar ddechrau tymor y Gwanwyn, ein thema newydd yw "Arwyr Hanesyddol Cymru", yn edrych ar ein henwogion o fri. Dechreuwn drwy ddysgu am Santes Dwynwen, a'i phwysigrwydd yng Nghymru. Mae'r plant wedi bod yn brysur yn gwneud creffttau i ddathlu'r diwrnod, a chwarae gemau. Bydd y thema yn parhau drwy'r tymor ac yn arwain at Ddydd Gŵyl Dewi pan fyddwn yn dathlu gyda Chyngerdd ar yr 8fed o Fawrth. Cofiwch ymuno a ni am ddisgled o de a phice ar y ma'n. Ymholiadau am y Cylch i Verona (07929 431652)

Cyfle i ddweud eich dweud ar sut gallwn ni wneud Cymru'r lle gore yn y byd i dyfu'n hŷn ynddo

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wrthi'n pennu'r gwaith y bydd yn ei wneud dros y tair blynedd nesaf i wella bywydau pobl hŷn. Bu'n teithio ar hyd a lled Cymru yn cwrdd ag yn siarad â phobl hŷn a sefydliadau, ac yn gwrando arnynt.

Daeth tair blaenoriaeth tymor hir yn amlwg -

Gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu heneiddio'n dda

Rhoi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu

Rhoi diwedd ar gam-drin pobl hŷn yng Nghymru

Mae'r Comisiynydd yn awyddus i gasglu cynifer a phosib o safbwyntiau a phrofiadau pob un ohonoch er mwyn symud ymlaen. Oes yna rywbeth yn eich poeni? A sut y gallwn helpi?

A oes modd gwella ansawdd eich bywyd? Sut gellir estyn help llaw i'r bobl hyn sy'n agored i niwed, neu'n cael eu hanwybyddu?

Mae'r Comisiynydd hefyd yn awyddus i gydnabod cyfraniadau pobl hyn i'w cymunedau ac i'r gymdeithas. Gwelodd enghreifftiau da o gynllunio sy'n gadarnhaol, ond mae llawer o waith i'w wneud eto. Mae'n bwysig fod pobl hyn yn ymwybodol i'u hawliau a rheini'n cael cadarnhau a'u diogelu.

Felly bydd rhaid ystyried blaenoriaethau dros y tair blynedd nesaf, gan wrando ar leisiau profiadol "Mae gan bobl hŷn lawer iawn o wybodaeth a phrofiad, ac rwy'n edrych ymlaen at glywed ganddynt, yn ogystal â'r rhai sy'n gweithio gyda hwy ac ar eu cyfer, am y newidiadau sydd eu hangen a sut gellir cyflawni'r rhain i wneud Cymru'r lle gorau yn y byd i fynd yn hŷn."

I ymateb i ymgynghoriad y Comisiynydd ar-lein, ewch i: <http://bit.ly/OPCW/Cymraeg>.

Os hoffech dderbyn copi caled o'r ddogfen ymgynghori, e-bostiwch

gofyn@olderpeoplewales.com neu ffoniwch 03442 640 670

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw dydd Gwener 22 Chwefror 2019

Ailgylchu

Bydd holiadur ynghylch ymgynghoriad ailgylchu, sydd ar agor i'r cyhoedd, yn fyw ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin am chwe wythnos, o 21/01/2018 hyd at 01/03/2018. Bydd canlyniadau'r holiadur yn darparu gwybodaeth i ni ynglŷn â sut y gallwn weithio tuag at gynyddu'r cyfraddau ailgylchu Byddwn yn hyrwyddo'r ymgynghoriad ar ein gwefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol gan ein bod am gael cymaint o adborth gan y cyhoedd ag y bo modd.

I weld neu lenwi'r holiadur, ewch i'r ddolen gyswllt isod:

<https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/ymgynghori-a-pherfformiad/ymgynghoriadau-actif/ymgynghoriad-cyhoeddus-ynghylch-ailgylchu-a-chasgliadau-biniau/>

Capel Ffynnonhenri

Os am fanylion pellach cysylltwch a Danny Davies, Trysorydd ar 01267 253418 neu Gwyn Nicholas, Ysgrifennydd ar 01267 25368

Caersalem, Llanpumsaint

A'r Iesu a ddywedodd wrthynt, Myfi yw bara'r bywyd. Yr hwn sydd yn dyfod ataf, ni newyna; a'r hwn sydd yn credu ynof fi, ni sycheda un amser. Ioan 6: 35

Gwasanaeth Cymraeg pob prynhawn Sul am 2pm neu 2.30pm ar wahan i Sul ola'r mis pan mae'r oedfa yn Saesneg. Croeso cynnes i'r cwrdd am 2 o'r gloch bob Sul.

Cwrdd gweddi bob prynhawn dydd Iau ac Ysgol Sul i oedolion ar fore Sul

Croeso i bawb. Am fwy o fanylion ffoniwch Eleri Morris ar 01267 253895

Capel Nebo

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

Pwyllgor Lles ac Adloniant

Dyddiadau - Cinio Elusen – Y Railwe - 2ail Ebrill

Cyfarfod Blynnyddol Cyffredinol - 30ain Ebrill

Dydd Hwyl -- 18fed Mai

Helfa Drysor y Ceir - 14eg Mehefin.

John Esau – Cerddor a Ficer pawb

Bu cysylltiad John Esau ac ardal Llanpumsaint yn un hir oes. Pan gyrhaeddodd yno i'w Sefydlu'n Ficer y plwyf yn 1997, dychwelid oedd e', oherwydd bu yma'n eisteddfota llawer cynt. Clywyd y llais tenor cyfoethog unwaith eto o fewn muriau'r Neuadd Goffa. Yn fachgen pedair ar ddeg oed, bu'r dydd Sadwrn hwnnw'n Fis Mai 1954 yn un cofiadwy. Wedi ennill am ganu Dan 16, dychwelodd i'r llwyfan i gipio'r Her Unawd Dan ddeunaw, yn Eisteddfod fawr Llanpumsaint. Yn wreiddiol o Aberteifi teithiodd John Esau bellteroedd ar fws ac ar drên i gystadlu, mewn oes pan oedd bri mawr ar eisteddfodau lleol. Mae son iddo unwaith ddal bws hyd Synod Inn, ac yna cerdded yr holl ffordd i Dalgarneg i gystadlu. Bryd hynny yr oedd yna nythod o denoriaid da led- led Cymru, felly mae camp John o ennill yn yr Urdd, Y Genedlaethol a Llangollen yn sefyll allan. Derbyniodd hyfforddiant o'r radd gyntaf dan law'r cyfansoddwr Meirion Williams yn Llundain.

Treilliodd John Esau ei fywyd gwaith fel aelod o'r Heddlu yn Lloegr, cyn dychwelid i Gymru i'w hyfforddi i'r weinidogaeth. Felly wedi cychwyn fel Canon yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi, cyrhaeddodd Llanpumsaint i fod yn Ficer Plwyf am y tro cynta'. Gyda Mary ei wraig aethant ati'n egniol i adfer cymdogaeth oedd newydd ddioddef cyfnod anodd yn ei hanes. Ar wahân i'w waith gyda'r eglwysi yn Llanpumsaint, Llanllawddog a Chelynin yn Bronwydd, ysgogodd elfen gyd- enwadol iach. Bu'r ddau yn gefnogol iawn i holl gapeli'r ardal, boed yn Fedyddwyr, Fethodistiaid neu Annibynwyr. Trefnwyd nifer o weithgareddau oedd yn agored i bawb, o Farbeciw ar lawnt y Ficerdy i dripiâu siopa sha Caerdydd. Yn naturiol ddigon ymunodd y ddau a Chôr Llanpumsaint dan arweiniad Gwyn Nicolas lle bu eu cyfraniad yn gyfoethog a chyson. Ar ôl chwe blynedd adeiladol symudodd y ddau ymlaen i Gydweli, ac yn ddiweddarach Aber-porth cyn ymddeol. Cadarnhaodd Gwyn iddynt barhau'n aelodau ffyddlon o'r Côr drwy'r blynyddoedd a'r pellteroedd teithio. Tŷ ym mhentref Peniel nesa, yn agos iawn at hen blwyfi Llanpumsaint a Llanllawddog, a rhai cyfeillion agos fel Terry ac Afonwy Morgan. Dyma gyfnod pan welwyd ef yn cynnal gwasanaethau'n gyson yng nghapeli'r ardal. Os oedd galwad i Nebo, Caersalem, Ffynnon henri a Bethel neu Gwmdwyfran, neu dipyn ymhellach, yr oedd John yno bob tro. B'n feirniad a chefnogwr brwd i Eisteddfod Lladyfaelog ac arwain ambell gymanfa a chwarae sawl organ.

Wedi colli Mary yn 2009, symudodd John i Gaerdydd i dreillio blynyddoedd olaf dedwydd gyda Aeron a ei ail wraig. Rhaid peidio anghofio ei ddiddordeb yn y byd chwaraeon, a'r beldroed yn bennaf. Tra yn Lloegr bu'n swyddog i un o'r cynghreiriau yno, ac mae son i Gwili Rangers Llanpumsaint weiddi am y Ficer pan fethodd ryw Reff droi lan un Sadwrn. Gwelwyd ef yn gyson ar Barc Waun Dew yn cefnogi Caerfyrddin, ambell dro gyda'r rygbi yn Nantgaredig, ac ar ddiwrnod heulog o haf yn gwylio'r criced yn Cnwcyderi Bronwydd, a pheint o gwrw go-iawn yn ei law. Wedi cyfnod o salwch bu farw ar 14eg o Ragfyr 2018 i ddychwelid i Eglwys lawn a mynwent Llanpumsaint am y tro olaf ar yr 28ain.

Arwyn 2019

Sioe Jonathan yng Nghaerfyrddin - Chwe Gwlad 2019

Byddwn yn ffilmio'r gyfres Jonathan yn S4C Yr Egin yng Nghaerfyrddin. Mae'r tocynnau am ddim a bydd diod am ddim yn y bar i chi hefyd. Mae'r gwahoddiad yn agored i bawb dros 16 mlwydd oed. Os oes gennych ddiddordeb, y cyfan sydd angen gwneud yw dewis dyddiad a rhoi gwybod sawl tocyn chi mhoen.

Chwefror 12, Chwefror 19, Chwefror 25, Mawrth 5, Mawrth 12

Cysylltwch am fwy o wybodaeth – rhaglenjonathan@avantimedia.tv

Diolch - Zac Lewis <zac.lewis@avantimedia.tv>



Village Voice February 2019

Copy Date for next Edition 24th March 2019

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange
www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to
info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY
Brechfa Forest West Wind Farm Community Fund provides some funding for Village Voice

What's on in the Village – please put these dates in your diary

Every Monday and Thursday from 3 September Short Mat Bowls 7.30 – 9.30 Memorial Hall

Every Tuesday 2.00 – 3.30 Village Circle Llanpumsaint Church

Every Tuesday 'Fitness Fun' at the Memorial Hall at 6.30 pm. £4 per 1-hour session.

Every Wednesday Steak Night at the Railway Inn 01267 253643

Every Thursday 2.00 - 3.00 Fitness for 50+ Ladies Bronwydd Hall

Every Wednesday 10.45- 11.45 Mobile Library outside Memorial Hall, details 224830

Every Tuesday 2.00 – 4.00 and Friday 1.00 – 3.00 Mobile Post Office, layby Bryn y Wawr

Every Third Monday – Merched y Wawr Memorial Hall

Every Friday 10.00 – 12 noon Ti a Fi sessions Cylch Meithrin Bronwydd Hall

Every Second Saturday in the month, Monthly Market 10 – 12 Llanllawddog Church Hall

February 6 Wednesday 8.00 Community Council Meeting Memorial Hall

February 13 Wednesday Supper Club Railway Inn – phone 253643 to book

February 19 Tuesday 7.00 Curry and Quiz Railway Inn £5 per head

February 24 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

February 24 Sunday 7.30 Quiz Hollybrook Inn

February 25 Monday 2.00 Clwb gwili 60+ Bronwydd Hall

March 1 Friday St David's Day Cawl Memorial Hall

March 2 Saturday 10.00 – 12.30 Litter Pick Memorial Hall

March 2 Saturday 10.30 AGM Allotment Society Old Station Yard

March 5 Tuesday 3.30 – 5.00 Open Church with Pancake Fest

March 6 Wednesday 10.00 Foot Clinic Memorial Hall

March 6 Wednesday 8.00 Community Council Meeting Memorial Hall

March 8 Friday 10.00 St.David's Concert - Cylch Meithrin Bronwydd - Bronwydd Hall

March 13 Wednesday Supper Club Railway Inn – phone 253643 to book

March 19 Tuesday 7.00 Curry and Quiz Railway Inn £5 per head

March 24 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

March 24 Sunday 7.30 Quiz Hollybrook Inn




Lonely but lovely flower in the churchyard



John Esau



Snow in the Village 2018



Another lovely sunset over Llanpumsaint 2019

Still not able to connect to Fibre Broadband?

The Welsh Government may be able to help -

See <https://beta.gov.wales/go-superfast/what-are-my-options>

Llanpumsaint and Ffynnon Henri Hall Trustees

The Memorial Hall committee is still looking for a new Secretary and we would like to invite applications for this post. Please contact Elfed Davies (Chair) on 01267 253053 (or any Committee member) for information.

What's on in the Village (continued)

March 25 Monday 2.00 Clwbgwili 60+ Bronwydd Hall

April 2 Tuesday Charity Meal Welfare and Recreation Association at Railway Inn

April 3 Wednesday 8.00 Community Council Meeting Memorial Hall

April 10 Wednesday 7.00 PTA Easter Bingo Memorial Hall

April 10 Wednesday 3.30 – 5.00 Open Church Llanpumsaint

April 10 Wednesday Supper Club Railway Inn – phone 253643 to book

April 16 Tuesday 7.00 Curry and Quiz Railway Inn £5 per head

April 21 Sunday Easter day services – see notices at Church and Chapels

April 28 Sunday 1.45 West Wales Dowers Bronwydd Hall

April 28 Sunday 7.30 Quiz Hollybrook Inn

April 29 Monday 2.00 Clwbgwili 60+ Bronwydd Hall

April 30 Tuesday 7.00 AGM Llanpumsaint Church

April 30 Tuesday AGM Welfare and Recreation Association Memorial Hall

May 1 Wednesday 8.00 Community Council Meeting Memorial Hall

May 18 Saturday Fun Day Welfare and Recreation Association Playing Field

May 19 Sunday 1.45 West Wales Dowers Bronwydd Hall

June 14 Friday Car Treasure Hunt Welfare and Recreation Association

December 7 Saturday PTA Christmas Fair Memorial Hall

Llanpumsaint and Ffynnon Henri Memorial Hall – to book phone Derick Lock on 253524

Annual Litter Pick Saturday 2nd March 10.00 – 12.30

Time for you to join us for the annual Village Litter Pick on 2nd March. We usually manage to collect about 20 bags of litter and other rubbish from the verges and roadsides on roads to the village and within the village itself. Everyone is welcome, and all ages – the youngest picker who has helped was 3, eldest was over 80. We will have all the equipment for you to use, red bags, rings to hold the bag, litter pickers, hi-viz vests. But please bring your own gloves.

We will meet in the car park at the hall in the village. Alternatively, you can pick up equipment from me before 2nd March, and collect litter near where you live, bringing the bags back to the hall for collection.

Phone 01267 253308 or email info@gwilimill.com

Let us get the village spruced up in time for spring – all welcome, the more the merrier.

Carolyn Smethurst

Village Circle

You are invited to a new social club starting up in Llanpumsaint. The very first “Village Circle” will meet on Tuesday the 5th February between 2-3:30pm at Llanpumsaint Church, and then every Tuesday from then on. You can arrive or leave at any time during the hour

The purpose of the club is a chance to socialise and to meet new and old friends. There will be tea and coffee available. Anyone coming to the event is welcome to bring any craft or hobby items to do during the session. This will also be a chance for people to learn new skills if they should wish. Alternatively, you can just sit, drink tea/coffee, and have a chat! All ages are welcome. Hope to see you there.

For any further information please contact

Niki Day on 01267 253883 or by emailing enfysfechan@btinternet.com

Helen Thomas on 01267 253930 or by emailing helenthomas@btinternet.com

Defibrillators

Just to update you all about the positions of the 4 defibrillators (AED's) in the Llanpumsaint Area. They are:

Outside the Memorial Hall, near the main door	SA33 6BZ
Outside the Pub, carpark side	SA33 6BU
On the wall outside Henfryn on road towards Ffynnon Henry	SA33 6LD
Outside Nebo Vestry, opposite Nebo Chapel	SA33 6HN

Why not locate the one nearest to you – then if someone suffers with a cardiac arrest, you will know exactly where to go to get this possible life saving equipment.

How do defibrillators help?

When a person has a cardiac arrest a **defibrillator** can be used to shock the heart back into a normal rhythm. Defibrillators are simple and safe to use and will not shock unless it's appropriate. You get detailed instructions with the defibrillator, so anyone can use it to try and save a life.

Every second counts – any delay can quickly reduce a person's chance of survival.

